Aberduar

Cynhaliwyd oedfa Nadolig Aberduar 22 Rhagfyr. I gychwyn yr oedfa cafwyd weddi gan Hedydd Wilson. Cyhoeddwyd yr emyn agoriadol sef 'O deuwch ffyddloniad' gan Eirug Jones. Yn dilyn cafwyd adroddiadau gan ddau ifanc iawn sef Gwenno a Prys Jones yn sôn am y Nadolig cyntaf. Cafwyd darlleniad o'r Hen Destament gan Llyr Davies yn sôn am addewid dyfodiad y Meseia. Cafwyd yr hanes am yr Angel Gabriel yn dod at Mair gan Arwel Jenkins. Cyflwynwyd gweddill o'r emynau gan Gillian Jones, Rhian Milcoy, Euronwy Doughty ac Anne Milcoy. Bu Bleddyn Jones yn sôn am eni'r Iesu ar y Nadolig cyntaf. Cafwyd hanes am ymweliadau y bugeiliaid ar stabl gan Hedydd. Yn sn am ymweliad y doethion bu Arwel Jenkins. Cyflwynodd Llyr weddi. Bu Lowri Gregson yn cyflwyno stori gyda naws Nadoligaidd iddi. Yn cyfeilio oedd Rhiannon Lewis a wnaeth hefyd gyflwyno adroddiad yn sôn am gariad. Trefnwyd yr oedfa gan Dewi Davies Glynteg. Diolchodd y Gweinidog i bawb am ei cyfraniad ac i'r gynulleidfa am ei cefnogaeth. Darllenodd hefyd gyfarchion oddi wrth ein cyn-weinidog, y Parch Jill Tomos Yn dilyn yr oedfa fe wnaeth pawb droi i fewn i'r festri am baned a sgwrs wedi ei baratoi gan y chwiorydd.

Carwn ddymuno blwyddyn newydd dda i'n gweinidog a'r teulu.

Dewi Davies Glyn-teg

Deufis

Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi **Chwefror-Mawrth 2020**

Trefn oedfaon y Sul

2 Chwefror		
Aberduar	10.00 y bore	Gweinidog—Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Gweinidog—Cymun
Noddfa	5.00 yr hwyr	Gweinidog—Cymun
9 Chwefror		
Aberduar	10.00 y bore	Delyth Morgans Phillips
Bethel	10.15 y bore	Nigel Davies (a Chymun)
Seion	1.30 y prynhawn	Gweinidog—Cymun
Brynhafod	3.00 y prynhawn	Gweinidog—Cymun
16 Chwefror		
Noddfa	10.00 y bore	Delyth Morgans Phillips
Aberduar	10.00 y bore	Melda Grantham
Brynhafod	1.30 y prynhawn	Oedfa rhai bach
23 Chwefror		
Bethel	10.15 y bore	Y Parchg Olaf Davies
Aberduar	1.30 y prynhawn	cyd-addoli yn Seion
Seion	1.30 y prynhawn	Y Parchg Olaf Davies
1 Mawrth		
Aberduar	10.00 y bore	Gweinidog—Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Gweinidog—Cymun
Noddfa	3.30 y prynhawn	Gweinidog—Cymun
8 Mawrth		
Aberduar	10.00 y bore	Doniau'r eglwys

drosodd/...

Trefn y Suliau (parhad)

Bethel	10.15 y bore	Gweinidog—Cymun
Seion	1.30 y prynhawn	Gweinidog—Cymun
Brynhafod	3.00 y prynhawn	Gweinidog—Cymun

15 Mawrth

Noddfa	9.30 y bore	Parchg Peter Thomas
Aberduar	11.00 y bore	Parchg Peter Thomas
Brynhafod	1.30 y prynhawn	Oedfa rhai bach

22 Mawrth

Aberduar	10.00 y bore	Lyndon Lloyd
Bethel	10.15 y bore	Gweinidog
Seion	1.30 y prynhawn	Gweinidog
Noddfa	5.00 yr hwyr	Oedfa Sul y Mamau

29 Mawrth

10.30 y bore Oedfa'r Cylch yn Aberduar
Y Parchg Aled Davies

Cylch Darllen
10.30 yn Festri Noddfa
Dydd Mercher cyntaf y mis

5 Chwefror—Epistol Iago Pennod 4
4 Mawrth—Epistol Iago Pennod 5

Astudiaeth Feiblaidd y Cylch
7.15 yn y Gilfach, am yn ail Nos Iau

6 ac 20 Chwefror—Actau 22-3
5 ac 19 Mawrth—Actau 24-5

BEDYDD

Gobeithir cynnal oedfa neu oedfaon bedydd adeg y Pasg. Gofynnir i bwy bynnag sy'n dymuno ymrestru ar gyfer y bedydd gysylltu naill ai â swyddogion y Cylch neu yn uniongyrchol â'r Gweinidog

Oedfa yn Hafan Deg

Ers peth amser mae aelodau Noddfa a Seion wedi bod yn cynnal oedfa hanner awr bob hyn a hyn yng nghartref Hafan Deg, Llambed. Hoffwn petai holl eglwysi'r Cylch yn medru ymuno yn y weinidogaeth bwysig hon. Cynhelir yr oedfa nesaf am 4 o'r gloch Dydd Mawrth 11 Chwefror.

Croeso i rai newydd ymuno â ni.

Ysgol Sul Noddfa

Daeth cynulleidfa luosog ynghyd ar gyfer gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul a braf oedd gweld 26 yn cymryd rhan. Teimlwyd naws hyfryd yr Ŵyl wrth deithio tua Bethlehem mewn pennill a chân a phawb o'r lleiaf i'r hynaf yn cyflawni eu gwaith yn rhagorol. Cyflwynwyd drama'r geni gan y plant cyn-radd a'r gwisgoedd lliwgar yn ychwanegu at fwynhad y gynulleidfa. Hefyd cyfoethogwyd yr oedfa gan ddarlleniadau o'r Beibl, gweddïau, unawdau, sgyrsiau a grwpiau canu amrywiol. Roedd brwdfrydedd y plant lleiaf wrth ganu 'Pen-blwydd hapus' yn dod â gwên i wynebau pawb. Do, bu'n oedfa i'w thrysori. Ar ddiwedd yr oedfa bu Siôn Corn yn brysur yn dosbarthu llond sach o anrhegion ac i gloi prynhawn bendithiol a phleserus iawn mwynhawyd gwledd arall sef te parti ardderchog.

Ar 10 Ionawr bu aelodau'r Ysgol Sul yn diddanu preswylwyr Cartref Hafan Deg. Cyflwynwyd amrywiaeth o eitemau gan y plant a dwy eitem gorawl gyda'r Mamau a rhai o'r preswylwyr yn ymuno. Roedd y deiliaid yn werthfawrogol iawn o gyfraniadau ardderchog pawb ac yn holi Pryd chi'n dod 'to?

I gloi dathliadau Nadolig, cynhaliwyd Oedfa Garolau yng ngolau cannwyll ar 5 Ionawr. Roedd y capel wedi ei addurno yn drawiadol iawn a'r canhwyllau yn cyfleu awyrgylch o dawelwch yn dilyn bwrlwm yr Ŵyl. Croesawyd pawb yn gynnes gan ein Gweinidog a darllenwyd rhannau o'r Beibl a chyhoeddwyd y Carolau gan 15 o aelodau Noddfa ynghyd â dau o Gaersalem. Hefyd pleser oedd gwrando ar unawd swynol gan Elan. Teimlai pawb yn bresennol eu bod wedi derbyn bendith trwy gyd-addoli mewn oedfa arbennig iawn. *Janet Evans*